| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | 22 HYDREF 2015 |
| **TEITL:** | CWYNION IAITH |
| **AWDUR:** | GWENLLIAN MAIR WILLIAMS<br>SWYDDOG DATBLYGU IAITH |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR. |

## CWYNION YN ERBYN Y CYNLLUN IAITH

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| | | |
| **Mai 2015** | Cwyn ynghylch ateb allan o'r swyddfa (ar e-bost) uniaith Saesneg gan Gynghorydd | Cadarnhawyd nad yw'r aelodau yn atebol i'r Cynllun Iaith yn yr un modd a swyddogion y Cyngor, ond cafwyd trafodaeth am yr angen i roi arweiniad clir i aelodau am y disgwyliadau arnynt i gyfathrebu yn ddwyieithog. Tynnwyd sylw'r Cynghorydd i'r mater dan sylw a chadarnhawyd mai camgymeriad yn unig oedd yr ymateb uniaith. Anfonwyd esboniad i'r achwynydd a chafwyd ymateb yn derbyn yr esboniad. |

## CWYNION ANFFURFIOL

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| | | |
| **Gorffennaf 2015** | Cwyn am ddeunyddiau uniaith Saesneg yn cael eu defnyddio fel rhan o ddigwyddiad cyhoeddus yn y Friog (Cynllun Rheoli'r Arfordir) | Cadarnhawyd bod fersiynau Cymraeg o'r adroddiad a'r posteri dan sylw wedi eu cylchredeg hefyd.<br>Mater wedi symud ymlaen i fod yn gais rhyddid gwybodaeth ac yn cael ei drin gan Swyddog o'r adran Rhyddid Gwybodaeth. |
| | Cyfeiriwyd cwyn am ddiffyg darpariaeth Gymraeg ar wefan y bydd ysgolion yn cael eu cyfeirio ati gan y Llywodraeth i gael gwybodaeth a chyngor arbenigol yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored (gwefan OEAP) | Ymddengys bod hwn yn fater oedd eisoes wedi cael sylw gan yr adran Addysg yn niwedd 2014. Anfonwyd ymholiad o'r newydd at swyddogion yn Adran Addysg a Sgiliau'r Llywodraeth i holi oedd unrhyw bosibilrwydd o gyfieithu'r canllawiau allweddol.<br>Derbyniwyd esboniad pam nad yw'r llywodraeth yn mynd i dalu am gyfieithu'r adnoddau.<br>Roedd yr ymateb hwn yn uniaith Saesneg. |